*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1428 (Cy. 369) (C. 80)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6) 2021

*Gwnaed - - - - 14 Rhagfyr 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 100(3) a (4) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 5 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 6) 2021.

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl erthygl 22 mewnosoder—

"**Galluedd plant**

**23.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys—

(a) i'r ddyletswydd i roi hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i blentyn yn erthyglau 9(2), 10(2) ac 11(2);

(b) i'r ddyletswydd i roi hysbysiad yn dilyn cais gan blentyn o dan erthygl 12;

(c) i'r ddyletswydd i roi copi o'r cynllun datblygu unigol i blentyn o fewn 35 o ddiwrnodau ysgol yn erthygl 13(1);

(d) i'r pŵer i roi hysbysiad ADY i blentyn yn erthygl 14(2);

(e) i'r ddyletswydd i roi hysbysiad ADY yn dilyn cais gan blentyn o dan erthygl 14(3).

(**1**) 2018 dccc 2.
(**2**) O.S. 2021/1243 (Cy. 315) (C. 68).

(2) Nid yw'r ddyletswydd neu'r pŵer yn gymwys os yw'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol priodol (yn ôl y digwydd) yn ystyried nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall y mater o dan sylw.

(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â'r ddyletswydd ym mharagraff (1)(a) neu (b), mae'r cyfeiriad cyntaf at blentyn yn erthygl 5 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei hepgor.

(4) Pan fo paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â'r ddyletswydd ym mharagraff (1)(a) neu (b), mae'r cyfeiriad cyntaf at blentyn yn erthygl 6 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei hepgor."

**Diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021**

**3.**—(1) Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021(**3**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl erthygl 20 mewnosoder—

"**Galluedd plant**

**21.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys—

(a) i'r ddyletswydd i roi hysbysiad CDU neu hysbysiad Dim CDU i blentyn yn erthyglau 9(2), 10(2) ac 11(2);

(b) i'r ddyletswydd i roi hysbysiad yn dilyn cais gan blentyn o dan erthygl 12;

(c) i'r ddyletswydd i roi copi o'r cynllun datblygu unigol i blentyn o fewn 12 wythnos yn erthygl 13(1);

(d) i'r pŵer i roi hysbysiad ADY i blentyn yn erthygl 14(2).

(2) Nid yw'r ddyletswydd neu'r pŵer yn gymwys os yw'r awdurdod lleol priodol yn ystyried nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall y mater o dan sylw.

(3) Pan fo paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â'r ddyletswydd ym mharagraff (1)(a) neu (b), mae'r cyfeiriad cyntaf at blentyn yn erthygl 5 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei hepgor.

(4) Pan fo paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â'r ddyletswydd ym mharagraff (1)(a) neu (b), mae'r cyfeiriad cyntaf at blentyn yn erthygl 6 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei hepgor."

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

14 Rhagfyr 2021

(**3**) O.S. 2021/1244 (Cy. 316) (C. 69).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021 a Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 6 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021 i wneud darpariaeth ynghylch galluedd plant. Mae hyn yn adlewyrchu adran 84 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 sy'n darparu nad yw dyletswyddau ac amodau penodol yn y Ddeddf honno mewn perthynas â phlant (e.e. i roi copi o gynllun datblygu unigol i blentyn) yn gymwys os ystyrir nad oes gan y plentyn alluedd i ddeall y mater o dan sylw.